

Arolygiad Iechyd Meddwl / Anabledd Dysgu (Dirybudd)

Phoenix House, Lighthouse
Healthcare Ltd, Adsefydlu
Dan Glo a Lle Byw Blaengar

28 a 29 Ionawr 2015

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 0300 062 8163
Ebost: agic@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	3
3.	Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth	5
4.	Crynodeb	6
5.	Canfyddiadau	8
	Safonau Craidd	8
	Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl.....	14
	Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl.....	15
6.	Y Camau Nesaf.....	16
	Atodiad A.....	17

1. Cyflwyniad

Mae ein harolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yn cynnwys ysbytai annibynnol a gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae ymweliadau arolygu'n agwedd allweddol ar ein hasesiad o ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yng Nghymru.

Yn ystod ein hymweliadau, byddwn yn sicrhau bod buddiannau'r cleifion yn cael eu monitro a bod lleoliadau'n cyflawni eu cyfrifoldebau trwy:

- Fonitoro'r cydymffurfiad â Deddf Iechyd Meddwl 1983, Deddf Galluedd Meddyliol 2005, a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Edrych i ba raddau mae sefydliadau gofal iechyd annibynnol yn cydymffurfio â Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Pwyslais arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n derbyn gwasanaethau o'r fath yn:

- ddiogel
- derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig, cartrefol
- derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol
- cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal a thriniaeth
- cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- gallu gwneud dewisiadau, ac yn cael eu hannog i wneud hynny
- cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn potensial
- gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i leisio pryderon a gwneud cwynion
- cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny

2. Methodoleg

Mae'r model arolygu a ddefnyddir gan AGIC i gyflawni'r arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu'n cynnwys:

- Cyfweiliadau a thrafodaethau cynhwysfawr gyda chleifion, perthnasau, eiriolwyr a chroestoriad o staff, gan gynnwys y Clinigydd Cyfrifol, therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr, addysgwyr, a staff nyrsio
- Cyfweiliadau gydag uwch staff gan gynnwys aelodau'r bwrdd lle y bo'n bosibl
- Archwilio dogfennau gofal gan gynnwys dogfennau'r tîm amlddisgyblaeth
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau allweddol
- Arsylwi'r amgylchedd
- Craffu ar yr amodau cofrestru ar gyfer y sector annibynnol
- Archwilio ffeiliau staff gan gynnwys cofnodion hyfforddiant
- Craffu ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol
- Craffu ar y dogfennau ar gyfer cleifion sy'n cael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Ystyried sut y gweithredir Mesur Cymru (2010)¹.
- Archwilio cofnodion yn ymwneud ag ataliaeth, cwynion, a phryderon a chofnodion atgyfeirio Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed
- Rhoi trosolwg o brosesau storio, rhoi, archebu a chofnodi cyffuriau gan gynnwys cyffuriau a reolir
- Ystyried ansawdd y bwyd
- Sut y gweithredir Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

¹ Ddeddfwriaeth sylfaenol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r Mesur; ymhlith materion eraill, mae'n darparu ar gyfer asesu, cynllunio gofal a chydgyssylltu mewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol a lleyg ar gyfer y broses arolygu, gan gynnwys adolygwr â phrofiad helaeth o fonitro cydymffurfiad â Deddf Iechyd Meddwl 1983. Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn.

3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth

Cynhaliodd AGIC ymweliad dirybudd, ym maes iechyd meddwl ac anableddau dysgu, ag ysbyty Phoenix House, y Trallwng, ar noswaith 28 Ionawr 2015 a thrwy'r dydd ar 29 Ionawr 2015.

Cofrestrwyd ysbyty Phoenix House gyntaf ar 21 Awst 2007. Mae'n berchen i Lighthouse Healthcare Cyf, a dyma'r unig ysbyty sy'n cael ei redeg gan y cwmni yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'r ysbyty wedi'i gofrestru ar hyn o bryd i ddarparu triniaeth feddygol a seiciatrig i adsefydlu 23 o ddynion rhwng 18 a 65 oed sydd wedi cael prif ddiagnosis o anhwylder meddyliol parhaus ac a all fod yn gymwys i gael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Roedd deg o gleifion yn lletya yn y sefydliad ar adeg yr arolygiad.

Mae Phoenix House mewn ardal breswyl yn nhref y Trallwng ym Mhowys. Cartref nyrsio oedd y safle ynghynt, a chafodd ei addasu er mwyn darparu'r gwasanaeth presennol. Mae lôn fach neilltuedig ar gyfer staff a cherbydau cludo, ond mae'r brif fynedfa ar ben lôn a rennir gydag eiddo lleol. Gellir cyrraedd yr ysbyty ar drafnidiaeth gyhoeddus leol yn y Trallwng.

Yn ystod ein hymweliad, gwnaethom adolygu pob man, gan adolygu cofnodion cleifion, cyfweld â chleifion a staff, adolygu'r amgylchedd gofal, ac arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion. Roedd y tîm adolygu'n cynnwys un adolygydd y Ddeddf Iechyd Meddwl, dau adolygydd lleyg, a dau aelod o staff AGIC.

4. Crynodeb

Tynnodd ein harolygiad o ysbyty Phoenix House sylw at nifer o arferion nodedig ynghyd â nifer o feysydd sydd angen eu gwella. Gwnaethom nodi'r ffordd gadarnhaol y gwnaeth y staff ymwneud â'r broses arolygu, ond yn bwysicach, y cynhesrwydd a'r berthynas gadarnhaol a welwyd rhwng y staff a'r cleifion.

Nodwyd bod lefelau staffio yn ystod ein hymweliad yn ddigonol, ond roedd yr wybodaeth yr oedd y nyrs â gofal yn ystod ein hymweliad nos yn meddu arni, ynghylch niferoedd y cleifion a gwybodaeth elfennol arall, yn annigonol ac yn rhy arwynebol. Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff, ac yn enwedig staff newydd, yn gwybod ble i gael gafael ar wybodaeth hanfodol am gleifion. Cadarnhaodd ein trafodaethau â'r staff fod gan aelodau'r tîm amlddisgyblaethol statws gydradd mewn cyfarfodydd a bod yr holl safbwyntiau proffesiynol yn cael eu gwerthfawrogi.

Gwnaeth yr holl gleifion a staff y siaradom â nhw wneud sylwadau cadarnhaol am amrywiaeth, maint ac ansawdd y bwyd sy'n cael ei weini, a chadarnhawyd hynny gan ein harsylwadau. Roedd y profiad bwyta a welsom yn gadarnhaol, a bwyttodd y staff a'r cleifion gyda'i gilydd.

Roedd ystod ac amrywiaeth y gweithgareddau a oedd ar gael i gleifion yn seiliedig ar eu hanghenion, a nodwyd eu bod yn dda. Roedd yr amgylchedd therapiwtig yn ategu athroniaeth yr ysbyty.

Roedd golwg a glendid yr ysbyty yn dda at ei gilydd, ond o ran rheoli heintiau/croesheintio roedd hi'n annerbyniol bod dillad brwnt wedi'u gosod ar lawr y golchdy. Rhaid cyflwyno system briodol ar gyfer gwneud y golch er mwyn osgoi unrhyw broblemau o ran rheoli heintiau.

Nodwyd bod rhai diffygion yn y systemau sydd ar waith i ategu gofal y cleifion, ac yn benodol yn y ddogfennaeth ofal. Nid oedd tystiolaeth o asesiadau iechyd corfforol cyflawn, ac nid oedd cynllun gofal digonol ar gyfer un claf a dderbyniwyd yn ddiweddar. Nodir meysydd eraill i'w gwella yn yr adran Gofal Iechyd Cyffredinol. Roeddem yn falch o nodi bod gwelliant o ran storio, rhoi a thrin meddyginiaethau. Mae Phoenix House wedi contractio gwasanaeth fferylyddol annibynnol sydd wedi cynorthwyo gyda'r broses o wella.

Gwnaethom nodi ambell i fater yn ymwneud â gwaith papur y Ddeddf Iechyd Meddwl; yn benodol, nad oeddem yn gallu dod o hyd i asesiadau capasiti yn y ffeiliau a adolygwyd gennym. Nid oedd asesiadau cleifion yn cael eu cofnodi'n ddigonol cyn iddynt adael y gofal, a rhaid i'r nyrsys gofnodi eu hanghenion yn gywir mewn perthynas ag apeliadau, gwrandawladau rheolwyr, a

thribiwnlysoedd. Roedd papurau cyfreithiol y Ddeddf Iechyd Meddwl yn gyfredol ac yn gyfleus yn swyddfa'r gweinyddydd.

Sylwom fod llawer o le i wella o ran y systemau sydd ar waith ar gyfer hyfforddiant, goruchwyliaeth, ac arfarniadau. Roedd dwy system ar waith er mwyn cofnodi gwybodaeth am y gweithgareddau hyn, er y byddai un system gywir yn ddigonol er mwyn cywain gwybodaeth a rhoi trosolwg o ffigurau cydymffurfiaeth. Roedd y data hyfforddiant a roddwyd ar adeg yr arolygiad yn dangos bod bylchau mewn amryw o feysydd, a bod goruchwyliaeth y staff yn amrywio. Dangosodd y data a ddarparwyd nad oedd unrhyw ddyddiadau ar gyfer goruchwyliaeth ddiweddar, ac nad oedd un aelod o staff wedi derbyn goruchwyliaeth ers 2011.

Mae system ar waith ar gyfer cofnodi ac ymdrin â chwynion. Roedd y cwynion a adolygwyd gennym yn ystod ein harolygiad yn nodi diffyg adroddiadau archwiliadol, rhestrau gwirio cwynion a oedd yn anghyflawn, a dim tystiolaeth o wybodaeth ddilynol i ddangos bod y gwyn wedi cael ei ymdrin yn llawn.

5. Canfyddiadau

Safonau Craidd

Amgylchedd y Ward

Adeilad dau lawr yw Phoenix House sydd â lifft ar gyfer mynediad i'r llawr cyntaf. Mae cyfanswm o 23 o ystafelloedd gwely sydd â thoiled a chawod wrth ochr pob un, ac mae ystafell ymolchi gyda chymorth, ar wahân, ar y llawr daear. Roedd y llawr cyntaf yn cynnwys ystafelloedd gwely i gleifion ac ardal i'r staff, a oedd yn cynnwys cegin, toiled ac ystafell gyfarfod.

Ar y llawr daear, roedd amryw o ystafelloedd gan gynnwys ystafelloedd gwely i'r cleifion, y lle byw blaengar, lolfa i'r cleifion ac ystafell gemau, ceginau cleifion ac ysbyty, ystafell therapi, ac ystafell fwyta ynghyd â swyddfeydd staff, swyddfa'r nyrsys, ac ystafell glinig.

Roedd golwg a safon glendid yr ysbyty drwyddo draw yn dda iawn. Fodd bynnag, ar noson ein hymweliad roedd dillad brwnt ar lawr y golchdy. Nid oedd y basgedi penodedig ar gyfer y golch yn cael eu defnyddio, ac felly roedd anhawster wrth reoli heintiau.

Mae'r lle byw blaengar yn rhoi cyfleoedd i gleifion ddatblygu eu sgiliau byw'n annibynnol mewn amgylchedd bach a rennir gydag eraill. Mae gan gleifion sy'n byw yn y lle byw blaengar eu cegin, lolfa a gardd eu hunain. Roedd y lolfa'n olau ac awyrog ac yn teimlo'n gartrefol. Roedd digon o seddi yno, a theledu, cwpwrdd llyfrau a bwrdd pêl-droed. Roedd drysau gwydr yn rhoi mynediad i'r ardd.

Roedd cynllun tebyg gan lolfa arall y cleifion, ond roedd ystafell gemau ynghlwm wrth honno oedd yn cynnwys bwrdd pŵl a chonsol gemau.

Roedd hysbysfyrdau wedi'u gosod o gwmpas yr ysbyty ac yn rhoi gwybodaeth dda i'r cleifion, gan gynnwys amserlenni o weithgareddau mewnol a chymunedol.

Roedd ardaloedd eraill y cleifion yn cynnwys cegin adsefydlu lle gallai'r cleifion baratoi a choginio eu bwyd eu hunain, a gwneud diodydd poeth i'w hunain. Drws nesaf, roedd ystafell weithgareddau a oedd yn arddangos gwaith celf y cleifion a ffotograffau o brosiect cymunedol. Dynododd sgysiau gyda chleifion ac aelodau staff fod anhawster yn codi wrth i staff ddefnyddio'r ystafell weithgareddau er mwyn cynnal cyfarfodydd, ac felly'n rhwystro cleifion rhag cael mynediad llawn ati a'i chyfleusterau. Argymhellwyd yn ystod ein hymweliad

y dylai'r ysbyty ystyried defnyddio'r ystafell gyfarfod ar y llawr cyntaf yn hytrach na defnyddio ardaloedd y cleifion i gynnal cyfarfodydd.

Argymhelliad

Mae ystafell weithgareddau'r cleifion wedi'i neilltuo ar gyfer gweithgareddau a therapiau'r cleifion, ac ni ddylid ei defnyddio ar gyfer cyfarfodydd staff.

Dylid cyflwyno system briodol ar gyfer gwneud y golch er mwyn osgoi unrhyw anawsterau o ran rheoli heintiau/croesheintio pan fydd golch wedi'i adael ar y llawr.

Diogelwch

Nodwyd bod gan yr holl staff ar ddyletswydd larymau diogelwch er mwyn seinio rhybudd i'r lleill petai argyfwng. Rhoddwyd larymau hefyd i staff AGIC er mwyn sicrhau ein bod yn ddiogel yn ystod ein hymweliad.

Yn ystod ein hymweliad, gwnaethom nodi fod y lefelau staffio'n briodol ar gyfer y nifer o gleifion a oedd yn yr ysbyty, ac yn cynnwys y staff hynny a oedd yn arsylwi cleifion. Serch hynny, wrth inni gyrraedd yr ysbyty, rhoddwyd tri ffigur gwahanol i ni o ran y nifer o gleifion a oedd yn yr ysbyty. Yn wreiddiol, dywedwyd wrthym fod deg claf yn preswyllo yn yr ysbyty ar y pryd. Pan wnaethom gwrdd â'r nyrs â gofal, fe gywirodd hi'r ffigur, gan ddweud mai naw claf oedd yno. Edrychodd y nyrs yn y llyfr trosglwyddo wedyn a dweud mai 11 o gleifion oedd yn yr ysbyty.

Gan nad oedd y ffigurau a roddwyd yn rhoi sicrwydd inni fod yr wybodaeth yn gywir, gofynnem am restr o'r holl gleifion cyfredol. Cadarnhaodd yr wybodaeth a gyflwynwyd mai deg o gleifion oedd yn Phoenix House ar adeg ein hymweliad. Roedd y nyrs â gofal yn newydd i'r sefydliad ac ar ei shifft nos gyntaf ar ôl ei sesiynau cynefino, ond roedd y diffyg gwybodaeth elfennol, a lle i gael gafael ar yr wybodaeth honno, yn bryder inni. Petai tân neu argyfwng arall, byddai gwybodaeth elfennol ynghylch nifer y cleifion yn hanfodol i'r gwasanaethau brys. Mae'n hanfodol bod aelodau staff newydd yn derbyn gwybodaeth bwysig, ac yn gwybod ymhle i gael gafael arni.

Argymhelliad

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gan yr holl staff ddealltwriaeth a gwybodaeth am y grŵp o gleifion, ynghyd â'r gallu i gael at wybodaeth bwysig, er mwyn sicrhau bod yr ysbyty'n cael ei redeg yn llyfn ac yn ddiogel.

Y tîm amlddisgyblaethol

Gwnaeth yr holl staff y siaradom â nhw sylwadau cadarnhaol ynghylch gweithio gyda'r tîm amlddisgyblaethol. Dywedodd y staff fod cyfarfodydd amlddisgyblaethol yn digwydd yn rheolaidd, a chaiff pob disgyblaeth ei chynrychioli, gan gynnwys seicoleg, therapi galwedigaethol, meddygon a nyrsys. Dywedodd y staff wrthym fod cyfarfodydd amlddisgyblaethol yn rhai cydweithredol lle y lleisir barn a safbwyntiau gan yr holl ddisgyblaethau, a lle mae'r staff yn teimlo bod parch i'w gilydd.

Cynhelir cyfarfodydd pontio rhwng y shifftiau yn yr ysbyty, lle caiff nodiadau pontio o'r shifft flaenorol eu mynegi i'r shifft nesaf. Yn ogystal, dywedodd staff wrthym fod cyfarfodydd staff yn digwydd a'i fod yn ofynnol i fynd i ddau gyfarfod bob chwarter. Ceisir barn a safbwyntiau, a chânt eu parchu, medd y staff.

Preifatrwydd ac urddas

Roedd gan yr holl gleifion eu hystafell wely en-suite eu hunain, ac roeddent yn gallu cadw eu trugareddau eu hunain a gosod lluniau i bersonoli'r lle. Nid oedd gan y cleifion y buom yn siarad â nhw allwedd i'w hystafell, ond os oedd angen mynediad arnynt byddai staff yn agor y drws. Dywedodd cleifion fod staff yn cnocio cyn mynd i mewn ac felly bod preifatrwydd ac urddas yn cael eu parchu'n go dda.

Dywedodd yr holl gleifion y gwnaethom siarad â nhw fod ganddynt nyrs enwebedig y gallant gwrdd ag ef/hi yn breifat a siarad am unrhyw fater.

Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn gwneud galwadau ffôn yn breifat drwy eu ffonau symudol eu hunain neu'r ffôn talu. Gall y cleifion hefyd ddefnyddio'r ystafell ymwelwyr i gwrdd â theulu a chyfeillion yn breifat.

Ar y cyfan, dywedodd y cleifion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysbyty.

Therapiau a gweithgareddau'r cleifion

Gwnaeth yr holl staff a chleifion y siaradom â nhw sylwadau cadarnhaol am y therapïau a'r gweithgareddau a gynigir gan yr ysbyty. Roedd hysbysfwrdd penodol yn dangos amserlen o weithgareddau wythnosol, gan gynnwys gweithgareddau nos a chymunedol. Cafodd hysbysiadau eu harddangos hefyd yn cynnig cyfleoedd i weithio ar fferm leol, amserlen ar gyfer y ganolfan hamdden leol er mwyn nofio, chwarae badminton ac ymarfer yn y gampfa. Roedd hysbysiad hefyd ar gyfer Pont Hafren, sef elusen iechyd meddwl gymunedol sy'n cynnig cyfleoedd i sgwrsio, ymlacio a chymryd rhan mewn gweithdai a gweithgareddau sy'n hybu lles, addysg ac adferiad o fewn y gymuned.

Mae seicolegydd yn darparu therapi grŵp gyda'r cleifion gan gynnwys grŵp ymwybyddiaeth ofalgar, ynghyd â sesiynau unigol. Mae therapyddion galwedigaethol a chydgysylltydd gweithgareddau yn rhoi cefnogaeth i gleifion drwy greu rhestr ddiddordebau sy'n cyfrannu at amserlen unigol pob claf. Maen nhw hefyd yn cynnal asesiadau llythrennedd a rhifedd sylfaenol pan fo angen. Roedd hysbysfwrdd iechyd corfforol yn yr ysbyty, ac mae grŵp hyrwyddo iechyd yn cwrdd unwaith yr wythnos.

Gofal iechyd cyffredinol

Ar adeg ein harolygiad, roedd hi'n amlwg nad oedd hi'n briodol i un claf fod yn yr ysbyty. Dywedodd y rheolwr cofrestredig nad ydynt yn gallu "bodloni ei anghenion". Rhaid dod o hyd i le arall iddo sy'n fwy addas.

Argymhelliad

Rhaid dod o hyd i le arall sy'n fwy addas ar gyfer y claf na ddylai fod wedi'i leoli yn yr ysbyty.

Bwyd a maeth

Gwnaeth yr holl staff a chleifion y siaradom â nhw sylwadau cadarnhaol am y bwyd a roddir iddynt yn yr ysbyty, gan ddweud bod dewis ac ansawdd y bwyd, a'r maint a roddir, wrth eu bodd. Mae cleifion yn dewis eu bwyd o fwydlen, a gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y bwyd yn addas i unrhyw un sydd â gofynion arbennig.

Arsylwom ar amser cinio yn ystod ein hymweliad, a gwelsom fod staff a chleifion yn bwyta gyda'i gilydd yn yr ystafell fwyta, ac felly roedd y profiad bwyd yn therapiwtig. Daeth y cogydd â'r bwyd i'r ystafell fwyta, a gwelsom mor siaradus a dymunol oedd hi â'r holl gleifion a staff. Rhoddwyd dau ddewis i'r bwytywyr, a sylwom fod digon o fwyd a'i fod wedi'i gyflwyno'n dda. Cynigiwyd dewis o ddiodydd hefyd.

Mae cleifion sy'n preswyllo yn y lle byw blaengar yn derbyn lwfans wythnosol i gynnal eu hunain. Yn ystod ein hymweliad gyda'r nos, gwelsom glaf yn coginio byrbryd i'w hunan. Dywedodd ei fod yn mwynhau coginio a'i fod yn rheoli ei lwfans fel y gall fwyta'n ddigonol.

Roedd yr ysbyty'n darparu digon o offer a lle storio er mwyn i'r cleifion allu prynu a storio byrbrydau a diodydd. Roedd y gegin therapi galwedigaethol yn darparu cyfleusterau i'r cleifion allu paratoi diodydd yn ôl yr angen.

Cadarnhaodd y staff fod bwyta'n iach yn cael ei annog yn yr ysbyty, ac os oes angen cwrdd â dietegydd ar glaf, fe drefnir hynny. Mae'r ysbyty'n sicrhau bod yr holl gleifion yn cael eu pwysu'n wythnosol.

Hyfforddiant

Gwnaethom adolygu deg o ffeiliau staff a gweld bod cynllun pob ffeil yn eglur, a bod gwybodaeth benodol wedi'i ffeilio o dan adrannau neilltuol gan ei gwneud hi'n hawdd i ddod o hyd i wybodaeth berthnasol. Roedd gan yr holl ffeiliau a adolygwyd wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd gwybodaeth am gyflogaeth, gan gynnwys geiradaon, yn eisiau o un ffeil, ac nid oedd gan un arall unrhyw dystiolaeth o gofrestrriad proffesiynol yr unigolyn. Argymhellir bod Phoenix House yn cysylltu â'u hadran adnoddau dynol i fynd ar ôl yr wybodaeth goll (yr adran adnoddau dynol yn ganolog sy'n cynnal yr holl wiriadau cyflogaeth angenrheidiol cyn eu bod yn anfon gwaith papur i Phoenix House i'w ffeilio a'u cynnal).

Roedd rhaglen hyfforddiant gorfodol ar waith, a gwnaeth y staff y buom yn siarad â nhw gadarnhau eu bod wedi derbyn hyfforddiant a datblygiad proffesiynol yn y deuddeg mis diwethaf. Fodd bynnag, roedd y systemau a ddefnyddir i gofnodi a monitro cyfraddau cydymffurfiaeth ar gyfer hyfforddiant yn ddryslyd. Roedd dwy system ar waith i gywain data hyfforddiant gorfodol, ond nid oedd y naill system na'r llall yn nodi canran cyflawn ar gyfer cydymffurfiaeth pob cwrs hyfforddiant. Felly, nid oedd y systemau'n gallu rhoi trosolwg i'r rheolwr o ba gyrsiau oedd angen sylw a phresenoldeb arnynt. Yn ogystal, roedd colofnau ar y ddwy daflen o ddata hyfforddiant, ond nid oedd dyddiadau wedi'u rhestru. Nid oedd data wedi'u rhestru ar daflen Hyfforddiant Gorfodol 2014 dan adrannau cymorth cyntaf brys, Deddf lechyd Meddwl, rheoli heintiau, cynnal bywyd brys, a swyddog tân. Nid oedd y rhestr o gyrsiau hyfforddiant gorfodol ar gyfer Phoenix House, a ddarparwyd gan yr hyfforddwr, yn adlewyrchu rhestr y taenlenni gan fod hyfforddiant ocsigen a galluedd meddyliol yn eisiau o'r daenlen. O ganlyniad, nid oeddem yn gallu dweud a oedd hyfforddiant wedi digwydd yn y meysydd a restrwyd. Argymhellir bod un system yn cael ei defnyddio i gywain a monitro data hyfforddiant a bod y system yn adlewyrchu'r union hyfforddiant a roddir.

Fe'n hysbyswyd bod system oruchwylio chwarterol ar waith ar gyfer y staff, sy'n cynnwys ystyriaeth fyfyrion ar ffurf grŵp a gyflwynir gan seicolegydd. Roedd y data a ddarparwyd o system Interflex, dyddiedig 29 Ionawr 2015, yn dangos rhai bylchau, ac nid oedd dyddiad ar gyfer yr oruchwyliath ddiwethaf. Nid

oedd y rheiny oedd â dyddiad wedi cael goruchwyliaeth yn y tri mis diwethaf yn unol â'r amserlen, a 2011 oedd y dyddiad diwethaf a nodwyd ar gyfer goruchwyliaeth un gweithiwr.

Gwnaed adolygiad o bum cwyn, a gwelsom rai materion yr oedd angen ymdrin â nhw. Nid oedd adroddiad archwilio cyflawn gan yr holl gwynion a adolygwyd, er i'r rhestr wirio ar gyfer pob cwyn nodi eu bod wedi'u cwblhau.

Nid oedd rhestr wirio adolygiad cwyn wedi cael ei chwblhau ar gyfer un gwyn, ac nid oedd tystiolaeth yn y ffeil bod y cam gweithredu a argymhellwyd yn sgil y gwyn wedi ei gyflawni ai peidio. Roedd gan un gwyn rif cyfeirnod gwahanol i'r hyn oedd ar y daflen gofnodi yn y blaen, felly roedd hi'n anodd gwybod beth oedd y cyfeirnod cywir. Roedd gan gwyn arall lythyr cydnabyddiaeth oedd yn nodi y byddai ateb yn cael ei roi ymhen deng diwrnod gwaith. Nid oedd llythyr yn y ffeil i gadarnhau i hyn ddigwydd, ac ni chwblhawyd cofnod adolygu cwynion.

Argymhelliad

Dylai'r adran adnoddau dynol ddarparu'r wybodaeth cyflogaeth sy'n eisiau i sicrhau bod y ffeiliau staff yn cynnwys yr wybodaeth berthnasol.

Argymhellir bod un system yn cael ei defnyddio i gywain a monitro data hyfforddiant a bod y system yn adlewyrchu'r union hyfforddiant a roddir.

Rhaid adolygu goruchwyliaeth y staff i sicrhau bod pob aelod o staff yn derbyn goruchwyliaeth yn unol â pholisi'r ysbyty, a'i bod yn cael ei chofnodi.

Rhaid adolygu'r ffeil gwynion i sicrhau bod pob rhestr wirio wedi'i llenwi'n gywir, bod gwybodaeth ddilydol yn cael ei chynnwys, a bod cofnod llawn o'r canlyniad.

Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu dogfennau cadw statudol tri o'r cleifion oedd dan orchymyn ac yn derbyn gofal yn yr ysbyty ar adeg ein hymweliad, a thair o ffeiliau'r gweinyddwyr iechyd meddwl. Nodwyd y materion nodedig canlynol:

- Roedd papurau cyfreithiol y Ddeddf Iechyd Meddwl yn gyfredol ac yn gyfleus yn swyddfa'r gweinyddwyr.

Nodwyd y materion canlynol, ac mae angen eu cynnwys yn eich cynllun gweithredu:

- Nid oeddem yn gallu dod o hyd i'r asesiad galluedd yn y ffeiliau a adolygwyd gennym.
- Nid oedd y nyrsys yn cofnodi'n ddigonol eu hasesiad o iechyd meddwl y claf cyn iddo adael y gofal.
- Rhaid i'r nyrsys gofnodi eu hanghenion yn gywir mewn perthynas ag apeliadau, gwrandawiadau rheolwyr, a thribiwnlysoedd.

Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu'r dogfennau cynllunio gofal a thriniaethau, gan nodi'r canlynol:

- Nid oedd tystiolaeth o asesiadau iechyd corfforol cyflawn.
- Nid oedd ymyriadau'n addas nac yn bodloni anghenion y cleifion, yn benodol ar gyfer rheoli pwysau un claf.
- Nid oedd cynllun gofal digonol ar waith ar gyfer y claf mwyaf diweddar a dderbyniwyd, ac ni wnaed asesiadau risg er bod risgiau amlwg wedi'u nodi yn ei ddogfennaeth. Nid oedd cofnod o fanylion cyswllt y perthynas agosaf, ni chafodd rhestr wirio ei llofnodi a'i dyddio wrth dderbyn y claf, a hefyd roedd llawer o fylchau.

Argymhelliad

Mae angen adolygu a diweddarau cynlluniau gofal er mwyn sicrhau bod asesiadau iechyd corfforol cyflawn ar gael, bod asesiadau risg ar gyfer cleifion newydd sy'n cael eu derbyn yn cael eu cynnal a'u diweddarau, a bod manylion cyswllt y perthynas agosaf yn cael eu llenwi. Mae angen asesu a diweddarau unrhyw gynlluniau gofal sydd â bylchau.

6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol ar Phoenix House i gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad, a chyflwyno ei gynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn ysbyty Phoenix House yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a chaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus ym maes iechyd meddwl/anabledd dysgu.

Atodiad A

Iechyd Meddwl/Anabledd Dysgu: Cynllun Gwella

Bwrdd Iechyd: Bwrdd Iechyd Addysgu

Practis: Phoenix House

Dyddiad yr arolygiad: 28 a 29 Ionawr 2015

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Rheoliad	Cam Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
9	Mae ystafell weithgareddau'r cleifion wedi'i neilltuo ar gyfer gweithgareddau a therapiau'r cleifion, ac ni ddylid ei defnyddio ar gyfer cyfarfodydd staff.	15 (1) (a)	Nid oes tystiolaeth bod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn yr ystafell weithgareddau. Fodd bynnag, rhoddwyd yr ystafell hon i arolygwyr AGIC fel eithriad am fod yr ystafell gyfarfod yn cael ei defnyddio ar gyfer cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaeth ar un o ddiwrnodau'r arolygiad. Parhaodd weithgareddau'r cleifion yn ôl yr arfer. Gall fod nad oedd y staff a'r cleifion wedi	Yvonne Williams, Rheolwr yr Ysbyty.	Nid oes angen gweithredu. Parhau i ddefnyddio'r ystafell yn ôl yr arfer.

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Rheoliad	Cam Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			deall yn llwyr cwestiwn yr arolygwyr yn ystod yr arolygiad, gan y byddai unrhyw gyfarfod a gynhelir yn yr ystafell weithgareddau yn ymwneud â gweithgareddau. Bydd therapyddion galwedigaethol yn cyfarfod â chleifion ac yn trafod a chynllunio gweithgareddau yn yr ystafell weithgareddau. Dyna ran o ddiben yr ystafell hon.		
9	Dylid cyflwyno system briodol ar gyfer gwneud y golch er mwyn osgoi unrhyw anawsterau o ran rheoli heintiau/croesheintio pan fydd golch wedi'i adael ar y llawr.	9 (1) (n)	Mae canllawiau golch yn cael eu gweithredu'n llawn. Gosodwyd poster newydd yn y golchdy i atgoffa/hysbysu staff i beidio gosod eitemau ar y llawr. Argraffwyd y polisi perthnasol ar reoli heintiau er mwyn i'r staff i gyd ei ddarllen, ac fe'u gosodwyd yn y golchdai.	Yvonne Williams, Rheolwr yr Ysbyty.	Wedi'i gwblhau yn syth – 1 Mawrth 2015 Dechrau cynnal hapwiriadau misol a chylchdeithiau dyddiol; bwrw golwg ar y golchdy rhag bod risgiau yno o ran rheoli heintiau. Bydd Archwiliadau

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Rheoliad	Cam Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
					<p>Golch Chwarterol yn parhau i ddigwydd.</p> <p>Bydd hyfforddiant rheoli heintiau yn ail-bwysleisio risgiau croes-heintio a'r canllawiau perthnasol.</p>
9	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gan yr holl staff ddealltwriaeth a gwybodaeth am y grŵp o gleifion, ynghyd â'r gallu i gael at wybodaeth bwysig er mwyn sicrhau bod yr ysbyty'n cael ei redeg yn llyfn ac yn ddiogel.</p>	20 (1) (a)	<p>Mae terminoleg yr adroddiad yn gamarweiniol i'r cyhoedd. Dywed yr adroddiad: "ond roedd gwybodaeth y staff ynghylch niferoedd y cleifion a gwybodaeth elfennol arall yn annigonol." Deallwn (ar sail adborth llafar yr arolygwyr) fod hyn yn cyfeirio at un nyrs yn hytrach na'r "staff". Mae "Staff" yn awgrymu mwy nag un person. Credwn y dylai hyn gael ei newid yn yr adroddiad.</p> <p>Nid yw'r dystiolaeth i gefnogi'r dyfarniad hwn yn ymddangos yn</p>	Yvonne Williams, Rheolwr yr Ysbyty	<p>Wedi'i gwblhau 8 Mawrth 2015 Ac yn parhau, i'w adolygu drwy archwiliad bob trimis.</p> <p>Arolygu'r broses bonito a rhoi'r ffurflen bonito newydd ar waith.</p> <p>Parhau i roi sesiynau cynefino i'r holl staff newydd a dangos iddynt ymhle</p>

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Rheoliad	Cam Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			<p>rhesymol nac yn gymesur o ystyried bod:</p> <p>Y nyrs y gofynnwyd y cwestiynau iddi ar ei shifft gyntaf erioed yn yr ysbyty, ac fe'i cynorthwywyd hi gan nyrs arall a staff cymorth a fu ar ddyletswydd y noson flaenorol ac a fu'n gweithio yn Phoenix House am dros flwyddyn. Roedd yr arolygwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth hon am fod datganiadau'r nyrsys yn nodi bod tîm AGIC wedi holi'r nyrs brofiadol yn Phoenix House pwy oedd hi, beth oedd ei rôl ac am ba hyd bu hi'n gweithio yn yr ysbyty. Roedd y nyrs hon yn adnabod y systemau'n dda ac ni ofynnodd tîm AGIC ragor o gwestiynau iddi. Petai hi wedi derbyn rhagor o gwestiynau, rwy'n sicr y byddai tystiolaeth yr arolygiad wedi bod yn wahanol ac yn adlewyrchiad mwy cywir o'r gofal diogel a roddir yn</p>		<p>mae'r gwaith papur angenrheidiol.</p>

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Rheoliad	Cam Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			<p>Phoenix House.</p> <p>Gofynnwyd y cwestiynau i gyd i'r nyrs newydd, ac yn ôl pob golwg mae hyn yn feirniadaeth ohoni hi yn hytrach nag yn feirniadaeth o'r gwasanaeth cyfan.</p> <p>Roedd systemau ar waith, ac maen nhw'n parhau, i sicrhau y byddai'r cleifion yn gadael yr adeilad yn ddiogel petai argyfwng.</p> <p>Nid ydym o'r farn bod yr adroddiad arolygu yn adlewyrchu'n llawn y systemau sydd ar waith er mwyn diogelu cleifion.</p> <p>Dewisodd yr arolygwyr i beidio siarad â'r nyrs gymwys arall ar ddyletswydd ar y pryd, a fyddai wedi rhoi darlun llawnach a manylach iddynt o'r cleifion.</p> <p>Mae'r adroddiad hefyd yn cyfeirio at weithdrefnau brys a risgiau posib i gleifion.</p> <p>Ni edrychodd yr arolygwyr yn</p>		

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Rheoliad	Cam Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			<p>llawn ar y meysydd hyn ar y pryd. Roedd y nyrs a oedd ar ddyletswydd am y tro cyntaf yn Phoenix House yn teimlo'n wir ei bod hi'n cael ei tharfu a'i dychryn gan yr arolygwyr. Rydym wedi derbyn datganiadau ysgrifenedig gan y ddwy nyrs sy'n disgrifio'r hyn a ddigwyddodd ar y noson gyda thîm arolygu AGIC.</p> <p>Mae'r ddau ddatganiad yn dangos nad oedd y nyrs newydd wedi cael cyfle i gael ei thywys o gwmpas yn llawn gan y nyrs arall, ac felly ni fyddai'n gwybod eto ymhle i gael gafael ar y wybodaeth berthnasol a ofynnwyd amdani gan dîm AGIC. Roedd hi'n glir hefyd bod y nyrs a fu'n gwasanaethu'n hirach wedi dweud wrth arolygwyr ei bod hi wedi bod yn gweithio yn Phoenix House am dros flwyddyn ac yn gwybod ymhle i gael gafael ar bethau.</p>		

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Rheoliad	Cam Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			<p>Fodd bynnag, eu dymuniad oedd cyfweld â'r newyddian i'r sefydliad, a oedd yn cael ei chynorthwyo gan y nyrs a fu'n gwasanaethu am gyfnod hirach ac a oedd ar ddyletswydd.</p> <p>Rydym wedi ceisio gwella systemau yn Phoenix House fel mater o drefn ac yn parhau â'r broses hon o ailwerthuso systemau. Rydym wedi gwella'r system bapur o bontio rhwng shifftiau i sicrhau bod gwybodaeth sy'n angenrheidiol a pherthnasol i'r staff yn cael ei chyfnewid a'i deall yn effeithiol. Mae ffolder yng nghorlan y nyrsys lle cedwir gwybodaeth berthnasol y cleifion a manylion allweddol ar gyfer y pontio fel bod modd cael gafael ar y data'n gyflym. Mae taflen bontio sy'n nodi'r manylion perthnasol a chynlluniau rheoli. Gall yr holl staff gael gafael arni'n hawdd. Mae'r broses</p>		

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Rheoliad	Cam Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			<p>bontio wedi cael ei phwysleisio unwaith eto ymhlith yr holl staff. Asesir ei heffeithiolrwydd ymhen chwech wythnos.</p> <p>Dylid cydnabod eto nad oedd y nyrs a holwyd wedi cwblhau'r broses o drosglwyddo'n llawn oddi wrth y nyrs nos arferol gan fod yr arolygwyr wedi cyrraedd wrth i hyn ddigwydd. Aeth yr arolygwyr â llawer o amser y nyrs newydd, a olygai fod yn rhaid i'r nyrs nos arall sicrhau bod y cleifion yn derbyn gofal; dechreuodd ei rownd feddyginiaeth, sy'n amser sydd wedi'i warchod, tra bod y nyrs arall yn cael ei chyfweld gan dîm AGIC. Yn sgil hyn, ni allai'r nyrs newydd ofyn i'w chydweithwraig ynghylch rhai o'r cwestiynau a ofynnwyd iddi gan dîm AGIC ar y foment honno.</p>		
11	Mae angen adolygu a diweddarau cynlluniau gofal er mwyn sicrhau bod asesiadau	15 (1) (a) (b) (c) & 19 (1) (a) (b)	Mae pecyn derbyn ar waith. Bydd hwn yn cael ei gwblhau wrth i bob claf gael ei dderbyn.	Yvonne Williams, Rheolwr yr Ysbyty	Parhaus, wedi'i gwblhau gan fwyaf, angen ei

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Rheoliad	Cam Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<p>iechyd corfforol cyflawn ar gael, bod asesiadau risg ar gyfer cleifion newydd sy'n cael eu derbyn yn cael eu cynnal a'u diweddarau, a bod manylion cyswllt y perthynas agosaf yn cael eu llenwi. Mae angen asesu a diweddarau unrhyw gynlluniau gofal sydd â bylchau.</p>		<p>Mae'n cynnwys pwyntiau atgoffa ynghylch archwiliadau iechyd corfforol ac asesiadau risg.</p> <p>Bydd nyrsys sy'n cyflawni'r broses dderbyn yn cynnal asesiad derbyn cychwynnol sy'n cynnwys cynlluniau gofal ac asesiadau risg ar gyfer pob claf. Cafodd hyn ei ail-archwilio ers yr arolygiad, ac mae bellach yn cynnwys yr holl bryderon a fynegwyd.</p>		<p>wreiddio yn yr arferion gwaith a'i ail-archwilio.</p> <p>30 Mawrth 2015</p> <p>Archwiliadau misol o gofnodion ein cleifion.</p> <p>Archwiliadau misol ar gyfer adolygiadau gofal.</p> <p>Trafodwyd yn SV gyda'r nyrsys a enwebwyd i gwblhau'r llwyth gwaith.</p> <p>Hyfforddiant cynllunio gofal ar gyfer yr holl nyrsys.</p>

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Rheoliad	Cam Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
11	Rhaid dod o hyd i le arall sy'n fwy addas ar gyfer y claf na ddylai fod wedi'i leoli yn yr ysbyty.	15 (1) (a) (b) (c)	Nid yw cyd-destun y frawddeg hon yn gyflawn yn yr adroddiad hwn: "Dyweddod y rheolwr cofrestredig nad ydynt yn gallu bodloni ei anghenion." Mae blas methiant ar hwn yn hytrach na datganiad bod y claf hwn yn cael ei ailasesu'n briodol a'i adael i fynd i faes iechyd sy'n fwy addas.	Rheolwr yr Ysbyty	Wedi'i gwblhau 2.03.2015 Mae'r claf wedi'i ryddhau i leoliad priodol.
13	Dylai'r adran adnoddau dynol ddarparu'r wybodaeth cyflogaeth sy'n eisiau i sicrhau bod y ffeiliau staff yn cynnwys yr wybodaeth berthnasol.	21 (2) (b) & (d)	Mae dogfennaeth/cofrestriad pob aelod o staff, ynghyd ag archwiliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gofynion perthnasol eraill, yn cael eu gwirio gan dîm adnoddau dynol canolog Lighthouse cyn i'r aelod o staff ddechrau gweithio yn Phoenix House. Maen nhw'n gwirio eu bod wedi'u cofrestru'n briodol gyda chorff ymarfer a bod hyn yn ddilys cyn bod dyddiad dechrau yn cael ei gynnig. Caiff yr wybodaeth hon	Yvonne Williams, Rheolwr yr Ysbyty	Wedi'i gwblhau ar adeg yr arolygiad. Dylid archwilio'r ffeil bersonél bob chwarter. Mae'r broses o fonitro'r broses recriwtio eisoes ar waith. Parhau i sicrhau bod cyfathrebu amserol yn digwydd rhwng adnoddau dynol y

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Rheoliad	Cam Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			ei chywain a'i chwblhau cyn iddynt ddechrau gweithio. Caiff ei anfon wedyn i ffeiliau adnoddau dynol Phoenix House.		<p>prif swyddfa a gweinyddiaeth adnoddau dynol Phoenix House. Roedd yr wybodaeth berthnasol yn y ffeil ym mhrif swyddfa Lighthouse.</p> <p>Mae matrices hyfforddiant ar waith ac mae cofnodion canolog wedi eu rhoi ynddo.</p> <p>Dyddiad cwblhau 30 Ebrill 2015</p>
13	Rhaid adolygu goruchwyliaeth y staff i sicrhau bod pob aelod o staff yn derbyn goruchwyliaeth yn unol â pholisi'r ysbyty, a'i bod yn cael ei chofnodi.	20 (2) (a)	Caiff cofnodion goruchwyliaeth eu rhoi ar system gyfrifiadurol interflex y cwmni, a chânt eu harchwilio gan yr adran adnoddau dynol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r polisi. Mae'r rheolwr hefyd yn cadw taenlen i	Yvonne Williams, Rheolwr yr Ysbyty	Roedd yr holl oruchwyliaeth wedi'i chwblhau ar ddiwrnod yr arolygiad.

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Rheoliad	Cam Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			<p>wirio bod goruchwyliaethau'n digwydd yn amserol. Mae'r ddwy system yn cyd-fynd ac yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gywir am oruchwyliaeth ac arfarniadau ar gael yn lleol ac yn gyfleus i'r rheolwr cofrestredig. Mae felly'n anghywir i adrodd: "Nid oedd y rheiny oedd â dyddiad wedi cael goruchwyliaeth yn y tri mis diwethaf yn unol â'r amserlen, a 2011 oedd y dyddiad diwethaf a nodwyd ar gyfer goruchwyliaeth un gweithiwr." Dangosodd taenlen y rheolwr fod yr holl oruchwyliaethau yn gyfredol, ac roedd dogfennaeth berthnasol ar gael i ddangos i'r arolygwyr mai dyna fel roedd hi. Mae system interflex yn storio data hanesyddol, gan gynnwys cofnodion ar gyfer staff sydd wedi gadael neu a oedd yn y banc nyrsio (a ddim yn gweithio bellach). Cedwir y rhain o hyd fel cofnod.</p>		

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Rheoliad	Cam Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
13	Rhaid adolygu'r ffeil gwynion i sicrhau bod pob rhestr wirio wedi'i llenwi'n gywir, bod gwybodaeth ddilynol yn cael ei chynnwys, a bod cofnod llawn o'r canlyniad.	24 (2) a (5)	Gwnaed ail-archwiliad o'r holl gwynion a dderbyniwyd yn 2014, ac mae rhestr wirio wedi'i chyflwyno. Mae'r adroddiadau archwilio ar gyfer yr holl gwynion bellach wedi'u ffeilio'n briodol.	Yvonne Williams, Rheolwr yr Ysbyty	Mae system newydd, ddiwygiedig, wedi'i chyflwyno. Bydd gan bob cwyn grynoded llawn o ymchwiliadau a thystiolaeth ynghlwm, a bydd hwn yn cael ei ffeilio.
Argymhellion y Ddeddf Iechyd Meddwl:					
14	Nid oeddem yn gallu dod o hyd i'r asesiad galluedd yn y ffeiliau a adolygwyd gennym.	Ddim yn berthnasol	Wrth gyrraedd yr ysbyty, caiff pob claf asesiad i weld a oes angen asesiad galluedd arno; caiff hwn ei gadw'n gyfleus ar gyfrifiadur lle bydd yn gallu cael ei archwilio. Bydd y pecyn derbyn newydd yn sicrhau y bydd hyn yn cael ei sbarduno ac yn archwiliadwy. Mae hyfforddiant pellach ar alluedd wedi cael ei archebu ar gyfer staff sydd heb ei dderbyn.	Yvonne Williams, Rheolwr yr Ysbyty	31 Mawrth 2015 Archwilio ffeiliau i gadarnhau bod asesiadau galluedd wedi'u cwblhau. Cwblhau archwiliad yn barhaus ac adrodd arno yn y cyfarfodydd Llywodraethu

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Rheoliad	Cam Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
					Clinigol.
14	Nid oedd y nyrsys yn cofnodi'n ddigonol eu hasesiad o iechyd meddwl y claf cyn iddo adael y gofal.	Ddim yn berthnasol	Adolygu'r dull o gofnodi asesiadau risg cyn i'r claf adael y gofal. Rhaid i bob nyrs sy'n llofnodi bod claf yn gadael gofal ddynodi yn eu nodiadau gofal eu bod wedi cwblhau asesiad risg gyda'r claf.	Yvonne Williams, Rheolwr yr Ysbyty	31 Mawrth 2015 Cynnal archwiliad o asesiadau risg Adran 17 bob mis ac adrodd arno yng nghyfarfod Llywodraethu Clinigol.
14	Rhaid i'r nyrsys gofnodi eu hanghenion yn gywir mewn perthynas ag apeliadau, gwrandawiaidau rheolwyr, a thribiwnlysoedd.	Ddim yn berthnasol	Mae'r datganiad hwn o'r adroddiad yn anghywir. Roedd yr holl ddogfennau mewn perthynas ag apeliadau, gwrandawiaidau rheolwyr, a thribiwnlysoedd yn gyfredol. Caiff argymhellion eu cofnodi mewn trafodaethau â'r tîm amlddisgyblaethol a'r claf, mewn perthynas â llwybr gofal y claf. Roedd dogfennaeth ynghylch hyn yn bodoli ar ddiwrnod yr arolygiad, ac mae'n parhau i ddigwydd.	Yvonne Williams, Rheolwr yr Ysbyty	Nid oes angen camau gweithredu pellach. Gweithredir system effeithiol yn Phoenix House.